

Agenda – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Iau, 10 Hydref 2019	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.20	0300 200 6363
	SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod (09.20–09.30) PREIFAT

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant**
(09:30)
- 2 Sesiwn graffu gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)**
(09:30–11.00) (Tudalennau 1 – 30)
Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Tom Henderson, Rheolwr y Bil Syrcas – Llywodraeth Cymru
Richard Lewis, Cyfreithiwr – Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru
Jackie Price, Uwch Swyddog Cyfrifol, Bil Syrcas – Llywodraeth Cymru
Dogfennau atodol:
Papur briffio (Saesneg yn unig)
Llythr



3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Diweddariad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i Adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–2020

(Tudalennau 31 – 42)

Dogfennau atodol:

Llythr a diweddaraiad

3.2 Gohebiaeth gan Chris Barltrop ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

(Tudalen 43)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth (Saesneg yn unig)

3.3 Gohebiaeth gan Circus Mondao ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

(Tudalennau 44 – 45)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth (Saesneg yn unig)

3.4 Gohebiaeth gan PAWSI ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) PAWSI

(Tudalen 46)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth (Saesneg yn unig)

3.5 Gohebiaeth gan Rachael Smith ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

(Tudalennau 47 – 49)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth (Saesneg yn unig)

11.00 – 12.00 PREIFAT

- 4 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law ac ystyried y materion allweddol a nodwyd o dan eitem 2**

- 5 Trafod adroddiad dilynol y Pwyllgor ar gynnydd Llywodraeth Cymru ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA) yng Nghymru**

(Tudalennau 50 – 81)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Our ref MA - L/LG/0489/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

seneddCCERA@assembly.wales

3 Hydref 2019

Annwyl Mike,

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Sycrasau (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Medi ynghylch Bil Anifeiliaid Gwyllt a Sycrasau (Cymru).
Gweler isod fy ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor.

- 1. A allwch chi ddarparu esboniad o'r cyfiawnhad moesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt, yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac a roddwyd yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 18 Gorffennaf?*

Mae sycrasau teithiol wedi bod yn teithio o gwmpas y Deyrnas Unedig ers dwy ganrif a mwy. Maent yn fentrau masnachol a'u nod yw diddanu. Mae nifer y sycrasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a nifer ac amrywiaeth yr anifeiliaid gwyllt yn y sycrasau hynny wedi gostwng yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae awydd y cyhoedd am y math hwn o adloniant wedi lleihau a bellach, dim ond dwy sycras sy'n teithio gydag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ddwy o Loegr ond yn ymweld â Chymru'n rheolaidd. Bob tro y maen nhw'n dod yma, mae'r galw am eu gwahardd yn codi eto. Mae pobl Cymru a mudiadau'r trydydd sector, gan gynnwys Cymdeithas Milfeddygon Prydain, y Born Free Foundation a'r RSPCA, wedi cefnogi ac ymgyrchu'n gyson dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn sycrasau teithiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried deisebau sy'n galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru ddwywaith.^{1 2}

Yn 2017, ymgynghorais ar gynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid, gan gynnwys syrzasau. Gofynnais hefyd am farn pobl ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Roedd cefnogaeth aruthrol gan y rheini a ymatebodd dros waharddiad ac ymrwymais i ystyried cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i wneud hynny.

Mae llawer o'r galw am waharddiad yn canolbwyntio ar effaith ganfyddedig syrzasau ar les anifeiliaid ac mae llawer o bobl yn credu na all syrzasau teithiol ddiwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt.

Ystyrir gwaharddiad am resymau lles ym mharagraffau 3.15 i 3.30 y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrzasau (Cymru). Nid wyf am ailadrodd y Memorandwm Esboniadol yn y fan hon, ond esboniaf yn fras pam na fyddai defnyddio pwerau dirprwyedig Deddf Lles Anifeiliaid 2006 i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn briodol.

Byddai gofyn imi gael fy modloni fod tystiolaeth wyddonol gref bod lles anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw mewn syrzasau teithiol yn dioddef cyn cyflwyno gwaharddiad o dan Ddeddf 2006. Yn ôl y dystiolaeth sydd gennyf, nid oes modd profi'n bendant bod lles anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol mewn cyflwr gwell na gwaeth nag anifeiliaid mewn sefyllfaoedd tebyg. Ni allaf ddweud yn bendant nad oes problemau lles ond yn hytrach, nid oes digon o dystiolaeth wyddonol berthnasol bod y problemau hynny'n bod. O gofio nifer gymharol fach yr anifeiliaid dan sylw, a'r amrywiaeth eang o rywogaethau sydd ag anghenion gwahanol, nid oes sicrwydd y byddai canlyniadau unrhyw ymchwil yn ddigon ystyrion a chadarn i allu dylanwadu ar y drafodaeth.

Hefyd, mae'r ddwy syrzas deithiol sydd wedi bod yn ymweld â Chymru wedi'u cofrestru ers y saith mlynedd ddiwethaf o dan Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau Teithiol (Lloegr) 2012. Mae'r rheoliadau hyn, a wnaed o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, yn gofyn bod gan syrzasau teithiol gynlluniau gofal ar gyfer eu hanifeiliaid gwyllt; eu bod yn cadw cofnodion penodol; eu bod yn dweud wrth yr awdurdodau trwyddedu am eu teithiau; eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan filfeddygon; a'u bod yn cadw at ofynion lles penodol o ran hyfforddiant, perfformiad, cludiant ac amgylchedd eu hanifeiliaid gwyllt. Er bod Rheoliadau 2012 yn amhoblogaidd gyda nifer o fudiadau lles anifeiliaid sy'n gwrthwynebu defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol, rhagdybir bod y ddwy syrzas deithiol wedi cadw at ofynion eu trwyddedau. Fel arall, ni fyddent wedi cael teithio â'u hanifeiliaid gwyllt.

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli y daw Rheoliadau 2012 i ben ar 19 Ionawr 2020, ddiwrnod cyn y disgwylir i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau 2019 sy'n gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrzasau teithiol yn Lloegr ddod i rym.

Daeth yn amlwg gydag amser bod ystyriaethau moesegol ehangach sy'n gofyn mwy na'r cwestiwn a yw lles anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn dioddef. Wrth i Ddeddf Cymru 2017 a'r model pwerau cadw ddod i rym, mae gennym y pwerau yng Nghymru i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol am resymau moesegol.

¹ NAW, P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau yng Nghymru
<<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=13740&Opt=0>>

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru
<http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=20656>

Y llynedd, ymgynghorais ar ddeddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yng Nghymru, am resymau moesegol. Cafwyd dros chwe mil a hanner o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 97% ohonyn nhw'n cefnogi fy nghynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrzas deithiol. Er nad pleidlais nag arolwg barn mo ymgynghoriad, mae cefnogaeth aruthrol y rheini a ymatebodd dros gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrzas deithiol yn arwydd arall o gryfder teimladau'r cyhoedd ynghylch y mater.

Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrzasau(Cymru) yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon moesegol hyn trwy wahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrzasau teithiol yng Nghymru. Dilynodd Llywodraethau'r Alban a'r DU drywyddau tebyg am eu bod yn ystyried nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad am resymau lles ond bod digon o gyfiawnhad dros wneud am resymau moesegol.

Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn rhywbeth o'r oes o'r blaen ac nid yw'n adlewyrchu'r farn gyhoeddus heddiw ynghylch sut y dylai anifeiliaid gael eu trin a'u dangos. Nid oes budd i gymdeithas nac i'r anifail gwyllt sy'n cyfiawnhau ei ddefnyddio'n unswydd i'n diddanu. Nid yw'n cyfrannu fawr at ein dealltwriaeth o anifeiliaid gwyllt a'u hymddygiad naturiol, nac at eu gwarchod yn eu cynefin. Mae'n amheus a yw'r anifeiliaid yn byw bywyd o ansawdd da ac yn bendant, nid yw'n fywyd sy'n debyg i fywyd anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth sy'n cael eu cadw mewn amgylcheddau eraill, fel swâu sy'n cael eu rheoleiddio'n drwm, nac anifeiliaid sy'n byw'n rhydd yn eu cynefin.

Rwy'n bryderus hefyd am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrzasau teithiol, ar gyfer adloniant yn unig, yn ei chael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith plant. Roedd llawer o'r rheini a ymatebodd i ymgynghoriad y llynedd yn rhannu'r farn honno, sef y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau'n gallu cyfrannu at annog mwy o barch ac agwedd gyfrifol at bob rhywogaeth.

Gall pobl bara i fwynhau syrzasau teithiol, ond rhaid symud ymlaen o weld anifeiliaid gwyllt yn gorymdeithio o'n blaenau yn adloniant. Trwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol, byddem yn ymuno â nifer gynyddol o wledydd sy'n credu ei bod yn annerbyniol defnyddio bodau ymdeimladol mewn ffordd mor hen ffasiwn.

2. A allwch chi roi esboniad pam rydych chi'n ystyried bod y gwaharddiad yn ymyrraeth gymesur, a sut rydych chi wedi bodloni'ch hun ei fod yn cydymffurfio â'r hawliau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998?

Byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrzasau teithiol yn dylanwadu ar y ddwy syrzas deithiol sy'n dal i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt. Mae'r nifer fach o anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw gan syrzasau teithiol, a'r ffaith bod y nifer yn gostwng, yn awgrymu nad yw eu presenoldeb yn ffactor bwysig wrth benderfynu ar eu poblogrwydd. Mae'n bosibl, gydag amser, y byddai syrzasau teithiol yn dewis peidio â defnyddio anifeiliaid gwyllt. Nid oes gwarant o hynny, fodd bynnag, ac o ystyried y ddadl foesol rwyf wedi'i chyflwyno uchod, rwy'n credu bod cyfiawnhad dros waharddiad ac y byddai'n ymateb cymesur. Byddai croeso i syrzasau teithiol yng Nghymru o hyd, cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

Amcan y Mesur hwn yw rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Rwy'n fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998. Bydd syrzasau teithiol yn cael teithio a pherfformio fel ag o'r blaen, ond ddim gydag anifeiliaid gwyllt.

Rwyf wedi gwrthod galwadau i wahardd syrcasau teithiol rhag cadw unrhyw anifeiliaid. Byddai gwaharddiad rhag cadw anifeiliaid gwyllt yn golygu amddifadu rhywun rhag ei eiddo ac i'w hawl i fwynhau ei eiddo'n heddychlon. Amddiffynnir yr hawl hwn gan Erthygl 1 o Brotocol 1 i Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori A1P1 yn gyfraith Brydeinig. Dywed A1P1: *Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law*. Mae rheoli'r modd y caiff anifail ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol yn llai o amhariad na llwyr amddifadu perchennog o'r anifail. Os bydd syrcas deithiol yn dewis cadw ei hanifeiliaid gwyllt, dyna'i braint, cyn belled â'i bod yn cadw at y gyfraith wrth wneud hynny.

Rwy'n fodlon hefyd fod y cosbau a'r pwerau gorfodi yn gymesur. Mae'r Atodlen yn pennu'r pwerau mynediad gan gynnwys yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y ceir rhoi gwarant i fynd i mewn i adeilad a chyfyngiadau gwarant o'r fath. Nid yw'r pwerau gorfodi hyn yn newydd ac maen nhw'n adlewyrchu'r pwerau mewn deddfau eraill.

Rwy'n disgwyl ymlaen at gwrdd â'r Pwyllgor eto ar 10 Hydref i roi rhagor o dystiolaeth am egwyddorion cyffredinol Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru).

Cofion,



Lesley Griffiths AC/AM

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport



Ein cyf/Our ref MA/P/KS/0111/19

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

SeneddCCERA@assembly.wales

1 Hydref 2019

Annwyl Mike,

Ymhellach i fy ymateb ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020, rwyf yn ysgrifennu gyda'r wybodaeth ddiweddaraf y cytunais i'w darparu ar gyfer nifer o'r argymhellion. Mae'r diweddariadau ar gael yn Atodiad 1.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Economy and Transport

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar argymhellion i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ynghylch y defnydd o gyllid dan yr Alwad i Weithredu ar fater datgarboneiddio. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd i annog y defnydd o'r cyllid.

Ymateb: Derbyn

Byddaf yn darparu diweddariadau i'r Pwyllgor i roi crynodeb o niferoedd cyffredinol y prosiectau a gefnogir a'r cyllid a ddyrannwyd dan bob Galwad i Weithredu. Byddaf yn darparu'r diweddariadau hynny bob chwe mis, sef ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac yng nghanol pob blwyddyn ariannol.

Diweddariad: Isod, mae'r cymeradwyaethau i'r prosiectau dan y Gronfa Dyfodol yr Economi o'r adeg pryd cafodd ei lansio ym mis Mai 2018 hyd yma, yn ôl Galwadau unigol i Weithredu.

Galwad i Weithredu	Rhif	Buddsoddiad
Datgarboneiddio	6	£ 22,447,000
Allforio a Masnachu	6	£ 1,288,560
Gwaith o Ansawdd Uchel, Datblygu Sgiliau, a Gwaith Teg	24	£ 25,335,776
Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys	34	£ 2,695,386
Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digidoleiddio	63	£ 5,708,153

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ynghylch y cynnydd wrth ddatblygu rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan a'i chynlluniau i gael rhagor o ddatblygiadau yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn

Roedd Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 11 Hydref 2018 yn cyfeirio at y nod y byddai Trafnidiaeth Cymru yn mynd allan i gaffael yng ngwanwyn 2019, a byddai Aelodau'r Cynulliad yn cael diweddariad pellach bryd hynny.

Diweddariad: Mae trafodaethau gyda gweithredwyr mannau gwefru yn cyfrannu at ein dull a'n strategaeth gwefru a gaiff ei chyhoeddi yn 2020. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith manwl o ddatblygu'r cynllun i gyflwyno'r rhwydwaith gwefru cyflym. 830 yw nifer y mannau pweru cyhoeddus erbyn hyn, sef cynnydd o'r 670 yn Ebrill 2019. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu mannau gwefru cyflym yng Nghanolbarth Cymru. Byddwn ni'n rhoi diweddariad i'r pwyllgor am y cynnydd mewn perthynas â'r mater hwn o fewn y 6 mis nesaf.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar y cynnydd wrth fynd i'r afael â Chrynodeiadau Nitrogen Deuocsid ar Ochr y Ffordd. Dylai hyn gynnwys asesiad o effaith terfyniadau 50mya mewn lleoliadau penodol.

Ymateb: Derbynn mewn Egwyddor

Er bod y data'n cael ei gasglu bob mis, ni fydd effeithiau llawn y terfynau cyflymder 50mya yn hysbys hyd oni fyddwn wedi cael gwerth 12 mis o ddata ac wedi dadansoddi hwnnw. Ni fydd hyn at gael tan fis Medi 2019 ar y cynharaf. Fodd bynnag, bydd diweddariadau am y cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu' a'r 'Mesurau Cadw Rhagofalus', fel yr amlinellir yn y cynllun atodol i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodeiadau nitrogen deuocsid, ar gael pan fydd eu hangen.

Diweddariad: Nid yw holl effeithiau'r terfynau cyflymder 50mya ar ostwng lefelau nitrogen deuocsid yn hysbys eto. Fodd bynnag, cafwyd erbyn hyn y data am y cyfnod o 12 mis ers iddynt gael eu rhoi ar waith i ddechrau ym mis Mehefin 2018, ac mae wrthi'n cael ei adolygu ochr yn ochr â chyflymder y traffig cysylltiedig a'r data cyfaint ar gyfer pob un o'r 5 lleoliad ar rwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd. Bydd yr adroddiad sy'n amlinellu canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi a bydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan wedyn.

O ran 'mesurau'r Cynllun Gweithredu', dyma gadarnhau'r canlynol:

- A494 Glannau Dyfrdwy – cadw'r terfyn cyflymder 50mya drwy orchymyn rheoli traffig a wnaed dan Adran 84 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 a ddaeth i rym ar 16 Awst 2019. Cafodd trefn arwyddion traffig manwl a chyfarpar gorfodi camerâu cyflymder cyfartalog eu gosod yn ystod Gorffennaf ac Awst.
- A483 Wrecsam – cadw'r terfyn cyflymder 50mya drwy orchymyn rheoli traffig a wnaed dan Adran 84 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 a ddaeth i rym ar 16 Awst 2019. Cafodd trefn arwyddion traffig manwl a chyfarpar gorfodi camerâu cyflymder cyfartalog eu gosod yn ystod Gorffennaf ac Awst.
- A470 Glan Bad i Bontypridd – cadw'r terfyn cyflymder 50mya drwy orchymyn rheoli traffig a wnaed dan Adran 84 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 a ddaeth i rym ar 17 Mehefin 2019. Mae trefn arwyddion traffig manwl a chyfarpar gorfodi camerâu cyflymder cyfartalog yn cael eu gosod yn ystod Awst a Medi.
- M4 Port Talbot – cadw'r terfyn cyflymder 50mya drwy orchymyn rheoli traffig a wnaed dan Adran 17 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 a ddaeth i rym ar 24 Gorffennaf 2019. Mae trefn arwyddion traffig manwl a chyfarpar gorfodi camerâu cyflymder cyfartalog yn cael eu gosod yn ystod Awst a Medi.
- M4 Casnewydd – Gosod terfyn cyflymder 50mya drwy'r system terfyn cyflymder amrywiol sy'n bodoli eisoes ac a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2019. Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r arwyddion terfyn cyflymder a'r orfodaeth camerâu cyflymder mewn manau. Mae'r gwaith yn mynd ymlaen i ddatblygu dyluniad y mesur Gwriad Newidiol oherwydd bod angen parhau â'r ddeialog gyda'r Heddlu a Chyngor Dinas Casnewydd am effeithiau posibl gwyro traffig i'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

O ran y Mesurau Cadw Rhagofalus, mae'r datblygiadau wedi dechrau eisoes a byddant yn cynnwys trafod gyda'r Awdurdodau Lleol perthnasol, gan fod nifer o'r cynigion yn debygol o arwain at wyro traffig o rwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd. Bydd argymhelliad ynghylch gweithredu rhai neu bob un o'r Mesurau Cadw Rhagofalus yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad a gaiff ei ryddhau ym mis Medi.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn cyn pen 6 mis ar ei gynlluniau mewn perthynas â therfynau 20mya.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i edrych ar yr opsiynau a gynigir o ganlyniad i ddatganoli pwerau ar gyfer terfynau cyflymder cenedlaethol yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Caerdydd i ddeall yr effaith o ganlyniad i weithredu ardaloedd 20mya mewn rhannau mawr o Gaerdydd, ac os bydd gweithredu terfynau 20mya a buddsoddi mewn teithio llesol gan gynnwys ariannu cynlluniau llogi beiciau ar y stryd a llwybrau seiclo strategol gyda'i gilydd yn gallu sicrhau gwelliannau mewn diogelwch ar y ffyrdd a chael mwy o bobl i ddewis dulliau teithio llesol. Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd gan y datblygiadau yng Nghaerdydd, byddwn ni hefyd yn adolygu ein canllaw ar osod terfynau cyflymder lleol er mwyn asesu a yw'n dal yn addas i'r pwrpas o ganlyniad i ddatganoli pwerau i osod terfynau cyflymder.

Fel rhan o'r gwaith sydd ar y gweill, asesir y costau a fyddai'n dod o newid y terfynau cyflymder cenedlaethol.

Byddwn ni'n rhoi diweddariad i'r pwyllgor am y cynnydd mewn perthynas â'r mater hwn o fewn y 6 mis nesaf.

Diweddariad: Ar 7 Mai, fe wnaeth y Prif Weinidog gyhoeddi mai 20mya ddylai fod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen amlddisgyblaethol i ystyried beth fyddai'r ffordd orau o weithredu terfyn cyflymder 20mya mewn ardaloedd adeiledig ledled Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi dechrau ar ei waith a gofynnwyd iddo ddarparu argymhellion i'r Gweinidogion erbyn haf 2020.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ynghylch cynnydd y fenter "Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd Cymru".

Ymateb: Derbyn

Mae adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y fenter hon eisoes yn cael eu cynllunio.

Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i rai o gynigion gwreiddiol y fenter, ynghyd â gwaith cynllunio mwy manwl a fyddai'n gofyn am adnoddau ychwanegol ac a fyddai'n destun ceisiadau pellach i'r Gweinidogion a chymeradwyaeth.

Diweddariad: Ers i mi gymeradwyo a chyhoeddi'r Fenter Coridorau Gwyrdd ym mis Gorffennaf 2018, mae fy swyddogion yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith Trafnidiaeth wedi bod yn datblygu cynlluniau ac wedi dechrau cyflwyno gwelliannau ar lawr gwlad er mwyn cyflawni amcanion y fenter. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 2.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar statws unrhyw adolygiadau yn ymwneud ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017.

Ymateb: Derbyn

Cafodd Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Roedd yn cymryd lle Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2008, a dylid ei ddefnyddio ar gyfer pob ymyriad traffig sy'n gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru. Roedd disgwyl i unrhyw gynlluniau a oedd yn cael eu datblygu gan ddefnyddio Arweiniad 2008 ar y pryd symud i Arweiniad 2017 cyn gynted ag yr oedd yn gyfleus. Mae Llywodraeth Cymru newydd gynnal sesiynau gweithdy ledled Cymru i drafod profiadau defnyddwyr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru ac enghreifftiau o'r arferion gorau. Nodwyd y themâu allweddol lle mae angen rhagor o gymorth ac arweiniad ar ddefnyddwyr, ac ymdrinnir â'r angen hwn. Y bwriad yw trefnu sesiynau tebyg yn nes ymlaen.

Mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol ar rai o argymhellion yr adolygiad, a byddent yn agored i ragor o geisiadau i'r Gweinidogion a chymeradwyaethau.

Byddwn ni'n rhoi diweddariad i'r pwyllgor am y cynnydd o fewn y 6 mis nesaf.

Diweddariad: Mae Llywodraeth Cymru newydd gynnal sesiynau gweithdy ledled Cymru i drafod profiadau defnyddwyr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, ynghyd ag enghreifftiau o'r arferion gorau. Nodwyd y themâu allweddol lle mae angen rhagor o gymorth ac arweiniad ar ddefnyddwyr, ac ymdrinnir â'r angen hwn.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar yr argymhellion a dderbyniwyd i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020

Argymhelliad 8

Dyma amcanion y fenter:

- Adeiladu lleoedd, a gwelliannau i dirwedd. Gan gynnwys targedu gwaith plannu coed, blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd a gwelliannau priodol eraill i'r dirwedd.
- Canfod gwelliannau eraill i ansawdd amgylcheddol y rhwydweithiau trafndiaeth trefol a gwledig (er enghraifft, trin ffiniau megis darparu gwrychoedd neu bileri llechi sy'n briodol i'r ardal), a chwilio am gyfleoedd i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith cyfredol neu waith sydd ar y gweill i adnewyddu neu uwchraddio seilwaith.
- Gwella cynefinoedd a gwella cysylltedd (cadernid ecosystemau). Gan gynnwys cyfleoedd i wella cysylltedd cynefinoedd, a hynny o fewn yr ystâd feddal sy'n bodoli eisoes a'r dirwedd yn ehangach, a chymryd camau i ddiogelu a chadw rhywogaethau a warchodir.
- Datrysiadau sy'n seiliedig ar Natur. Fel rhan o'r gwaith o wella a gweithredu rhwydwaith trafndiaeth diogel, effeithlon a chynaliadwy, dylid datblygu egwyddorion datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, gan eu gwreiddio yn y prosesau dylunio a chynllunio.
- Gwaith cynnal a chadw priodol. Adolygu ein safonau cynnal a chadw, gan sicrhau eu bod yn briodol ac yn cyrraedd ein nod i gael rhwydwaith trafndiaeth diogel a chynaliadwy, a'r dyheadau i sicrhau bod Cymru yn gyrchfan dwristiaeth o'r radd flaenaf a darparu manteision lluosog.
- Ceir amcanion trawsbynciol ar gyfer Cyfathrebu, Cydweithio a Phartneru, gan gyfrannu at waith adrodd ynghylch cynnydd, gwerthuso a monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru.

○

1. Cyflawni

Mae'r dull o gyflawni'r fenter yn ceisio canfod 'Camau Cyflym Ymlaen' ochr yn ochr â datblygu cynlluniau a chynigion ar gyfer y tymor hir. Mae'r gwaith yn cael ei ariannu drwy raglen gyfalaf Trafndiaeth.

a) 'Camau Cyflym Ymlaen'

Gan ddechrau yn haf 2018 bu swyddogion yn gweithio gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru i ganfod 'Camau Cyflym Ymlaen' a oedd yn bosibl i'r fenter. O ganlyniad i hynny, mae'r enghreifftiau canlynol wedi cael eu cwblhau neu ar fin cael eu cwblhau;

- Cafodd 50,000 o gennin Pedr eu plannu gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru mewn lleoliadau 'porth' ar yr A55, A494 a'r A483; a chafodd 75,000 o gennin Pedr eu plannu gan Asiant Cefnffyrdd De Cymru yn Ardal Porth Caerdydd ar yr M4. Mae rhagor o waith plannu bylbiau wedi cael ei gynllunio ar gyfer hydref 2019.

- Mae dros 13Ha o ymylon ffyrdd yng Nghanolbarth Cymru wedi cael eu hychwanegu at ardaloedd sy'n cael eu rheoli ar gyfer blodau gwyllt; lle mae gwaith cynnal a chadw wedi cael ei wella i greu amodau lle gall cymunedau o flodau gwyllt ffynnu a lledaenu. Mae safleoedd eraill ar ymylon ffyrdd ledled Cymru wrthi'n cael eu hasesu fel mater o drefn ac maent yn cael eu nodi ar gyfer eu rheoli fel ardaloedd blodau gwyllt.
- Mae 6000 o Friallu a Briallu Mair yn cael eu plannu ar hyd yr A40 yn Nhreloan, Caerfyrddin.
- I gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni, cafodd gwaith cynyddu blodau gwyllt ei wneud ar ymyl ffordd yr A470 wrth ddod i mewn i'r dref.
- Cafodd prosiectau adfer tirwedd, a oedd yn cynnwys plannu coed a llwyni cynhenid, eu gwneud ar hyd y ffyrdd canlynol yn ystod gaeaf 2018-19. A465 Ffordd Henffordd, A449, A40 (i'r dwyrain) a'r A483. Cafodd cyfanswm o 9,265 o goed a llwyni eu plannu fel rhan o'r prosiectau hyn.
- Datrysiadau peirianeg sy'n seiliedig ar natur – Technegau plannu naturiol yn lle ffensys eira gweog pvc hyll ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar yr A470 yn Storey Arms. Mae treialon plannu wedi cael eu sefydlu er mwyn penderfynu ar y dull gorau a'r rhywogaeth mwyaf priodol o blanhigion.



Cennin Pedr 'Camelot', M4 De Cymru

Bydd y gwaith o ganfod a chymryd 'Camau Cyflym Ymlaen' yn rhan barhaus o'r fenter.

b) Cynlluniau a chynigion ar gyfer y tymor hir

Mae'r swyddogion hefyd wedi comisiynu Asiantwyr y Cefnffyrdd i baratoi cynigion manwl ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a nodwyd dan y fenter ac i ddarparu amrywiaeth o fesurau i wella ansawdd y dirwedd, gwella cynefinoedd a gwella cysylltedd, camau mewn perthynas â rhywogaethau a warchodir a datrysiadau sy'n seiliedig ar natur. Mae'r gwaith yn cynnwys asesu safleoedd porth a meysydd blaenoriaeth eraill o gymharu â'r amcanion, ac yna dylunio a gweithredu mesurau ar lawr gwlad. Pan fo modd, ystyried defnyddio (neu yn y tymor hir, i ddatblygu) cadwyni cyflenwi lleol. Bydd y gwaith hwn yn dechrau cael ei gyflawni yn 2019, a bydd yn mynd ymlaen drwy gydol y fenter gan ychwanegu rhagor o safleoedd yn y blynyddoedd i ddilyn.

Symudir ymlaen gyda'r safleoedd, gan ddechrau cyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2019/2020 .	Disgrifiad o'r gwaith a'r gwelliannau sydd wrthi'n cael eu cynllunio – canfyddir cyfleoedd eraill, a chânt eu hasesu a'u datblygu ar gyfer y safleoedd hyn.	Cyflawni mewn perthynas amcanion Menter y Coridor Gwyrdd	Amserlen
Ardal Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru			
A494 Glannau Dyfrdwy (Porth)	<p>Gwaith adfer tirwedd, gan gynnwys teneuo coed a phrysgoedio, tacluso ardaloedd sydd wedi'u plannu eisoes, agor golygfeydd lle bo hynny'n briodol, ac adfywio pyllau sy'n bodoli eisoes.</p> <p>Plannu coed newydd mewn nifer o leoliadau, e.e. Cyffordd Parc Glannau Dyfrdwy.</p> <p>Plannu bylbiau wrth gyfnewidfa Shotwick a lleoliadau eraill.</p> <p>Creu ardaloedd ar gyfer blodau gwyllt wrth gyffordd Parc Glannau Dyfrdwy, gan ystyried ardaloedd eraill hefyd.</p> <p>Plannu llwyni a choed newydd ar hyd ymyl y ffordd at Aston Mead er mwyn cael sgrin well.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adeiladu lleoedd, a gwelliannau i dirwedd. 2. Gwella cynefinoedd a gwella cysylltedd (cadernid ecosystemau) a Gweithredu dros Rywogaethau. 3. Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur. 	<p>Yn dechrau – Diwedd haf / hydref 2019.</p> <p>Y prif gyfnod cyflawni – hydref 2019 hyd at wanwyn 2020.</p> <p>Bydd rhywfaint o'r gwaith yn mynd ymlaen i'r flwyddyn nesaf, neu canfyddir a datblygir cyfleoedd eraill.</p>
A55 Brychdyn (Porth a Ffordd Cymru)	Plannu bylbiau mewn nifer o leoliadau.		

	<p>Gwaith adfer tirwedd o gwmpas Cyffyrdd 36A, 35A ac ardaloedd eraill, gan gynnwys teneuo coed a phrysgoedio a chryfhau'r hyn a blannwyd eisoes.</p> <p>Creu ardaloedd ar gyfer blodau gwyllt ger Drury Lane.</p> <p>Plannu coed newydd mewn sawl lleoliad.</p>		
